

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll

Cofnodion Cyfarfod Mehefin 26^{ain} 2012

Presennol: A. Mummery (Cadeirydd), A. Jones, A. Thomas, G.C. Jones, J.A. Edwards, I. Bebb, B. Jones, G. Parry, A. Williams.

Cynghorwr Sirol: J. Evans.

Anwen Le Cras (Clerc)

1. Ymddiheuriadau: J. Roberts, H. Huws

Cyflwynwyd siec am £4220 gan deulu'r diweddar Rhian Hughes yn ei chof tuag at gronfa'r Neuadd Goffa. Diolchwyd yn fawr Iwan i'r teulu am drefnu'r cyngerdd ac am benodi'r Neuadd Goffa'n fuddiolwr o'r elw. Daeth dau siec arall i law am £100 gan Gylch Cinio a £150 gan R.L. Jones a V. W. Jones, Y Wern.

2. Datganiadau Diddordeb: Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb.

3. Materion y Cyngor Sir

Nodwyd bod cyfarfod i'w gynnal yfory (27/06/12) i drafod cynigion trefniadau etholiadau Ynys Môn. Derbyniwyd llythyr a chynigion eraill i'r rhai a dderbyniwyd gan y Comisiwn Ffiniau gan y Cynghorydd Gareth Winston Roberts. Gan nad oedd amser i ymateb cytunwyd i adael y mater yn nwylo'r Cyngor Sir.

4. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Blynnyddol Mai 29^{ain} 2012

Cynigwyd gan I. Bebb ac eiliwyd gan A. Jones. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

1. Grantiau - Cais Cyfran Deg am £2000 wedi'i dderbyn a'r gwaith glanhau wedi cymryd lle. Y gwaith atgyweirio'r maes aml bwrpas ar y gweill.
Dim ymateb hyd yma ar y grant "Tidy Towns" ar gyfer y Fynwent a'r Clwb Bowlio.
2. Gor' dyfiant ger Tŷ coch - Cynghorydd J. Evans wedi cysylltu â'r Cyngor Sir. Y perchennog wedi cael rhybudd os na fydd wedi tacluso'r safle bydd y Cyngor Sir yn gweithredu arno ac yn anfonebu'r perchennog.
3. Y Clerc wedi gofyn i Gwyndaf Pritchard edrych ar do'r sied. Heb dderbyn adroddiad hyd yma.
4. Disgwyl cyfarfod gyda rhwng y Cyngor Bro a Huw Percy, Adran Briffyrdd ynglŷn â materion yn ymwneud a lon Penmynydd a'r llwybr beicio.
5. Dylan Williams wedi cwblhau'r gwaith o baentio'r meinciau a giatiau'r fynwent.
6. Arolwg Ystlumod wedi'i gynnal ar y Neuadd Goffa a'r adroddiad wedi'i dderbyn. Ymddengys nad oes ystlumod yno felly nid bydd unrhyw broblem gyda dymchwel yr adeilad.
7. Bil dwr y Clwb Bowlio - y cadeirydd a'r is Gadeirydd yn ceisio dod i waelod y broblem.
8. Carnifal Llanfairpwll wedi cymryd lle 23^{ain} Mehefin ac wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Penderfynwyd gyrru llythyr o longyfarch i'r pwyllgor.
9. Baw ci mewn bagiau yn y coed ger llwybr Foelgraig/Lon Hen Ysgol. Y Cynghorydd J. Evans wedi adrodd i'r swyddog perthnasol yn y Cyngor Sir. Nodwyd bod y coed ar dir preifat ond bod y llwybr yn eiddo'r Cyngor Sir.
10. Seddi Gwag - dyddiad cau heb fynd heibio. I'w roi ar agenda mis Gorffennaf.
11. Dogfennau'r Cyngor bro gan y cyn Clerc. Ysgrifennu'n ffurfiol at Mr Foulkes i ofyn am y dogfennau'n ôl.
12. Cynllun Ceidwaid Chwarae - mae'r Cyngor Bro wedi bod yn llwyddiannus yn eu cais i gael gwasanaeth y Ceidwaid Chwarae yn ystod y gwyliau haf. Bydd sesivnau'n cychwyn Dydd Gwener 3ydd Awst unwaith yr wythnos am 4 wythnos.

6. Cofnodion Pwyllgor [REDACTED] Mehefin 12^{ain} 2012

Cynigwyd gan G. Parry ac eiliwyd gan J. Roberts. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Nodwyd yr angen i nodi bod G. Parry yn Gadeirydd y pwyllgor..

AMGYLLHEDD AC EIDDO

7. Materion yn codi

1. Cynlluniau gwella Pentrefi - nodwyd bod cynlluniau'r Cyngor Sir a rhai'r Cyngor Bro ar y gweill.
2. Coed y wern - y Clerk heb dderbyn ymateb pellach

8. Awdit Cyfrifon 2011/12

Cyflwynwyd y cyfrifon a derbyniwyd adroddiad yr archwiliwr mewnol John D. Roberts. Nid oedd unrhyw faterion angen sylw. Nodwyd balchder yn y ffaith fod y cyfrifon a'r holl ddogfennaeth yn gyflawn ac yn gywir. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith.

Cytunwyd i dderbyn y cyfrifon ac arwyddo'r datganiad i'w yrru ymlaen i Hacker Young yr archwilwyr allanol.

9. Ceisiadau Cynllunio

41C66E Marchynys, Penmynydd - cais i godi Twrbîn Gwynt 78 medr o uchder

Derbyniwyd llythyr gan Ynys Môn yn erbyn Tyrbinau yn gofyn i'r Cyngor bro gefnogi eu gwrthwynebiad i'r tyrbinau.

Penderfynwyd cefnogi'r gwrthwynebiad i dyrbinau dros 15medr oherwydd rhesymau gweledol a gan nad yw cymunedau lleol yn derbyn unrhyw fudd o'r tyrbinau yn y gymuned.

31C145A 15 Ffordd Rhiannon, cais i addasu ac ehangu - dim sylw

31C302 Mount Pleasant, Ffordd Penmynydd, cais i addasu ac ehangu - dim sylw

10. Cyfrifon Mis Mehefin 2012

Cyflwynwyd taenlen taliadau a derbyniadau mis mai a gwariant yn erbyn y gyllideb.

Derbyniwyd y cyfrifon fel rhai cywir a chytunwyd i'r taliadau.

11. Gohebiaeth

a. Medwyn Owen, cwmni Chwarae Plant yn cynnig gwasanaeth archwilio meysydd chwarae.

Cytunwyd i ofyn iddo gynnal archwiliad o safle'r Gors pan fydd y gwaith atgyweirio i'r maes aml bwrpas wedi'i gwblhau.

b. Comisiwn Ffiniau - cywiriad i'r ddogfen ddiweddaraf.

c. Penderfyniadau Cynllunio - er gwybodaeth.

12. Unrhyw Fater Arall

1. Felt ar do'r pafiliwn wedi torri. Gofyn i Gwyndaf Pritchard gael golwg arno.

Cwyn wedi'i dderbyn am blant ar ben y to.

2. Llongyfarch y Clwb Peldroed iau ar eu llwyddiant yn ystod y flwyddyn wedi iddynt ennill nifer o wobrwyon.

3. Clwb Bowlio wedi hyfforddi oddeutu 45 o blant blwyddyn 6 er mwyn meithrin diddordeb yn y gêm ymysg yr ifanc.

4. Twr Marcwis wedi'i gau oherwydd fandaleiddio.

5. Sefyllfa parcio rhwng yr ysgol Maes y Waun - nifer o rieni yn parcio ar y llinellau melyn ac yn creu anhwylostod a pherygl i gerddwyr. Cysylltu gydag adran briffyrdd y Cyngor Sir a'r heddlu. Codi'r mater yng nghyfarfod nesaf y llywodraethwyr.

Dyddiad cyfarfod nesaf nos Fawrth 31ain Gorffennaf 2012 am 7.00yh

Arwyddwyd(Cadeirydd)Dyddiad